



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2011 Rhif 559 (Cy.81)**

**2011 No. 559 (W.81)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

**TRWYDDEDU (MOROL),  
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),  
WALES**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

**MARINE POLLUTION,  
WALES**

Gorchymyn Trwyddedu Morol  
(Gweithgareddau Esempt) (Cymru)  
2011

The Marine Licensing (Exempted  
Activities) (Wales) Order 2011

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu pa weithgareddau na fydd arnynt angen trwydded forol, neu na fydd arnynt angen trwydded forol os bodlonir amodau a bennir yn y Gorchymyn. Mae'r Gorchymyn yn gymwys i unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy a gynhelir yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru ac y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (erthygl 2).

This Order specifies activities which are not to need a marine licence, or not to need a marine licence if conditions specified in the Order are satisfied. It applies in relation to any licensable marine activity carried on in Wales and the Welsh inshore region, in relation to which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (article 2).

Mae Rhan 1 (erthyglau 1 i 3) yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Part 1 (articles 1 to 3) contains introductory provisions.

Mae Rhan 2 (erthyglau 4 a 5) yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu o dan ba amgylchiadau nad oes angen trwydded forol ar gyfer gweithgaredd morol trwyddedadwy, a darpariaethau ynglŷn â gwastraff (sy'n gweithredu, yn rhannol, Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3)).

Part 2 (articles 4 and 5) contains provisions setting out when a marine licence is not needed for a licensable marine activity, and provisions relating to waste (which implement in part Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on waste (OJ No L 312, 22.11.2008, p.3)).

Mae Rhan 3 (erthyglau 6 i 34) yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu'r gweithgareddau morol trwyddedadwy nad oes arnynt angen trwydded forol (gan gynnwys unrhyw amodau y mae'n rhaid eu bodloni fel rhan o'r esemptiad hwnnw).

Part 3 (articles 6 to 34) contains provisions setting out the licensable marine activities which do not need a marine licence (including any conditions that must be satisfied as part of that exemption).

Mae asesiad llawn o'r effeithiau y bydd yr offeryn hwn yn eu cael ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk).

A full impact assessment of the effects that this instrument will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or at the Welsh Assembly Government website at [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk).

**2011 Rhif 559 (Cy.81)**

**2011 No. 559 (W.81)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

**TRWYDDEDU (MOROL),  
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),  
WALES**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

**MARINE POLLUTION,  
WALES**

**Gorchymyn Trwyddedu Morol  
(Gweithgareddau Esempt) (Cymru)  
2011**

**The Marine Licensing (Exempted  
Activities) (Wales) Order 2011**

*Gwnaed* 25 Chwefror 2011

*Made* 25 February 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 1 Mawrth 2011

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 1 March 2011

*Yn dod i rym* 6 Ebrill 2011

*Coming into force* 6 April 2011

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Introductory provisions

1. Enwi a chychwyn
2. Cymhwyso
3. Dehongli

1. Title and commencement
2. Application
3. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Gweithgareddau esempt – darpariaethau cyffredinol

Exempt activities – general provisions

4. Esemptio rhag yr angen am drwydded forol
5. Gweithgareddau mewn perthynas â gwaredu neu adfer gwastraff

4. Exemption from need for marine licence
5. Activities relating to disposal or recovery of waste

### RHAN 3

Gweithgareddau y mae erthygl 4 (esemptio rhag yr angen am drwydded forol) yn gymwys iddynt ac amodau

6. Dehongli Rhan 3
7. Gweithgareddau sy'n dod o fewn Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995
8. Cyfarwyddiadau diogelwch o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995
9. Gweithgareddau achub llongau
10. Ymladd tanau etc
11. Ymchwilio i ddamweiniau awyr
12. Gweithredoedd pysgota
13. Lledaenu a magu pysgod cregyn
14. Dyddodi sylweddau trin cemegion morol ac olew morol etc
15. Dyddodi cyfarpar i reoli, cyfyngu neu adfer olew etc
16. Offer gwyddonol etc
17. Dyddodion wrth dreillio am agregau neu fwynau
18. Cynnal gweithiau diogelu'r arfordir, draenio ac amddiffyn rhag lifogydd
19. Gwaith argyfwng wrth ymateb i lifogydd neu'r risg o lifogydd
20. Defnyddio cerbydau i symud sbwriel neu wyon oddi ar draethau
21. Dyddodion yn ystod mordwyo neu waith cynnal arferol
22. Cynnal gweithiau harbwr
23. Symud rhwystr neu berygl i fordwyath
24. Angorfeydd a chymhorthion mordwyo
25. Arwyddion ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd
26. Lansio llongau a chychod etc
27. Datgymalu llongau
28. Llwybrau deifwyr mewn ardaloedd dan gyfyngiadau
29. Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant
30. Dyddodi a defnyddio fflaglau etc – dibenion diogelwch a hyfforddiant
31. Ceblau a phibinellau – archwilio ac atgyweirio awdurdodedig mewn argyfwng
32. Twnelau a duriwyd
33. Hawliau llongau tramor etc o dan gyfraith ryngwladol

### PART 3

Activities to which article 4 (exemption from need for marine licence) applies and conditions

6. Interpretation of Part 3
7. Activities falling within Part 6 of the Merchant Shipping Act 1995
8. Safety directions under the Merchant Shipping Act 1995
9. Salvage activities
10. Fire fighting etc
11. Air accident investigation
12. Fishing operations
13. Shellfish propagation and cultivation
14. Deposit of marine chemical and marine oil treatment substances etc
15. Deposit of equipment to control, contain or recover oil etc
16. Scientific instruments etc
17. Deposits in the course of aggregates or mineral dredging
18. Maintenance of coast protection, drainage and flood defence works
19. Emergency works in response to flood or flood risk
20. Use of vehicles to remove litter or seaweed from beaches
21. Deposits in the course of normal navigation or maintenance
22. Maintenance of harbour works
23. Removal of obstruction or danger to navigation
24. Moorings and aids to navigation
25. Markers for European marine sites
26. Launching of vessels etc
27. Dismantling of ships
28. Diver trails within restricted areas
29. Coastguard activities – safety purposes and training
30. Deposit and use of flares etc – safety purposes and training
31. Cables and pipelines – authorised emergency inspection and repair
32. Bored tunnels
33. Rights of foreign vessels etc under international law

34. Llwytho cerbyd neu long etc. Â deunydd i'w losgi y tu allan i Gymru a rhanbarth glannau Cymru.

34. Loading of vehicle or vessel etc for incineration outside Wales and the Welsh inshore region

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 74(1), (2) a (3) a 316(1) o'r Ddeddf honno, a chan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 74(1), (2) and (3) and 316(1) of that Act, and by section 2(2) of the European Communities Act 1972(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(3).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to the prevention, reduction and management of waste(3).

Wrth benderfynu gwneud y Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i'r materion a grybwyllir yn adran 74(4) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

In deciding to make this Order, the Welsh Ministers have had regard to the matters mentioned in section 74(4) of the Marine and Coastal Access Act 2009.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 74(5) o'r Ddeddf honno.

The Welsh Ministers have carried out a consultation in accordance with section 74(5) of that Act.

## RHAN 1

## PART 1

### Darpariaethau rhagarweiniol

### Introductory provisions

#### Enwi a chychwyn

#### Title and commencement

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011.

1.–(1) The title of this Order is the Marine Licensing (Exempted Activities) (Wales) Order 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) This Order comes into force on 6 April 2011.

#### Cymhwyso

#### Application

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(4).

2. This Order applies in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113 of the Marine and Coastal Access Act 2009(4).

(1) 2009 p.23.

(1) 2009 c.23.

(2) 1972 p.68.

(2) 1972 c.68.

(3) Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2010 [O.S. 2010/1552].

(3) Article 3 of the European Communities (Designation) (No.2) Order 2010 [S.I. 2010/1552].

(4) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Mae i "rhanbarth glannau Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh inshore region" yn adran 322(1) o'r Ddeddf.

(4) By virtue of section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on licensable marine activities in relation to Wales and the Welsh inshore region other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority under section 113(4)(a) and (5) of that Act. See section 322(1) for a definition of the Welsh inshore region.

## Dehongli

### 3. Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "awdurdod harbwr" ("*harbour authority*") yr ystyr a roddir i "harbour authority" yn adran 57(1) o Ddeddf Harbyrau 1964(1);

ystyr "awdurdod goleudy" ("*lighthouse authority*") yw awdurdod goleudy cyffredinol neu awdurdod goleudy lleol o fewn ystyron "general lighthouse authority" a "local lighthouse authority", yn eu trefn, yn Rhan 8 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(2);

ystyr "awdurdod trwyddedu" ("*licensing authority*") yw Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o'r Ddeddf;

mae i "cynllun neu brosiect" ("*plan or project*") yr ystyr a roddir i "plan or project" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(3);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae i "gwaredu" ("*disposal*") yr ystyr a roddir i "disposal" yn Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff;

ystyr "gwastraff" ("*waste*") yw unrhyw beth—

- (a) sy'n wastraff o fewn yr ystyr a roddir i "waste" yn Erthygl 3(1) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 5(1) o'r Gyfarwyddeb honno, a
- (b) nad yw wedi ei eithrio o briod faes y Gyfarwyddeb honno gan Erthygl 2(1), (2) neu (3) o'r Gyfarwyddeb honno;

ystyr "gweithgaredd" ("*activity*") yw gweithgaredd morol trwyddedadwy(4);

mae i "gweithgaredd esempt" ("*exempt activity*") yr ystyr a roddir gan erthygl 4;

## Interpretation

### 3. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Marine and Coastal Access Act 2009;

"activity" ("*gweithgaredd*") means licensable marine activity(1);

"disposal" ("*gwaredu*") has the meaning given by Article 3 of the Waste Framework Directive;

"European site" ("*safle Ewropeaidd*") means—

- (a) a European site within the meaning of regulation 8(1) of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010(2); and
- (b) a European offshore marine site within the meaning of regulation 15 of the Offshore Marine Conservation (Natural Habitats & c) Regulations 2007(3);

"exempt activity" ("*gweithgaredd esempt*") has the meaning given by article 4;

"fishing operation" ("*gweithred bysgota*") includes fishing for or taking shellfish but does not include an activity relating to the propagation or cultivation of shellfish;

"harbour authority" ("*awdurdod harbwr*") has the meaning given by section 57(1) of the Harbours Act 1964(4);

"licensing authority" ("*awdurdod trwyddedu*") means the Welsh Ministers as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Act;

"lighthouse authority" ("*awdurdod goleudy*") means a general lighthouse authority or a local lighthouse authority within the meaning of Part 8 of the Merchant Shipping Act 1995(5);

"plan or project" ("*cynllun neu brosiect*") has the same meaning as in Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora(6);

---

(1) 1964 p.40, y gwnaed diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(2) 1995 p.21. *Gweler* adran 193 o'r Ddeddf honno. Gwnaed diwygiadau perthnasol i'r adran honno gan baragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Llongau Masnach a Diogelwch Arforol 1997 (p.28).

(3) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t.7, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.368).

(4) *Gweler* adrannau 66 a 115(1) o'r Ddeddf.

---

(1) *See* sections 66 and 115(1) of the Act.

(2) S.I. 2010/490.

(3) S.I. 2007/1842, amended by S.I. 2010/1513.

(4) 1964 c.40 to which there are amendments not relevant to this Order.

(5) 1995 c.21. *See* section 193 of that Act to which section relevant amendments have been made by paragraph 6 of Schedule 6 to the Merchant Shipping and Maritime Security Act 1997 (c.28).

(6) OJ No L 206, 22.7.1992, p.7, last amended by Council Directive 2006/105/EC (OJ No L 363, 20.12.2006, p.368).

mae "gweithred bysgota" ("*fishing operation*") yn cynnwys pysgota am bysgod cregyn neu gymryd pysgod cregyn, ond nid yw'n cynnwys gweithgaredd sy'n ymwneud â lledaenu neu fagu pysgod cregyn;

ystyr "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" ("*the Waste Framework Directive*") yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (1);

mae "pysgod cregyn" ("*shellfish*") yn cynnwys cramenogion a molysgiaid o unrhyw fath ac unrhyw ran o bysgodyn cragen;

ystyr "safle Ewropeaidd" ("*European site*") yw—

- (a) safle Ewropeaidd o fewn yr ystyr a roddir i "European site" yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(2); a
- (b) safle morol alltraeth Ewropeaidd, o fewn yr ystyr a roddir i "European offshore marine site" yn rheoliad 15 o Reoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 2007(3);

mae i "safle Ramsar" ("*Ramsar site*") yr ystyr a roddir i "Ramsar site" yn adran 37A o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(4).

"Ramsar site" ("*safle Ramsar*") has the same meaning as in section 37A of the Wildlife and Countryside Act 1981(1);

"shellfish" ("*pysgod cregyn*") includes crustaceans and molluscs of any kind and any part of a shellfish;

"waste" ("*gwastraff*") means anything that—

- (a) is waste within the meaning of Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Article 5(1) of that Directive, and
- (b) is not excluded from the scope of that Directive by Article 2(1), (2) or (3) of that Directive;

"the Waste Framework Directive" ("*y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff*") means Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on waste(2).

## RHAN 2

Gweithgareddau esempt – darpariaethau cyffredinol

### Esemptio rhag yr angen am drwydded forol

4.–(1) Nid oes angen trwydded forol ar gyfer gweithgaredd a ymgymerir yng Nghymru neu yn rhanbarth glannau Cymru, sy'n weithgaredd esempt.

(2) Mae gweithgaredd yn weithgaredd esempt i'r graddau—

- (a) y bo'n weithgaredd y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo(5); a
- (b) pan fo cymhwysedd yr erthygl hon i weithgaredd yn ddarostyngedig i amod a

(1) OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3.

(2) O.S.2010/490.

(3) O.S.2007/1842, a ddiwygiwyd gan O.S.2010/1513.

(4) 1981 p.69. Mewnosodwyd adran 37A mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan adran 77 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37), a diwygiwyd hi gan adran 105(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (p.16), a pharagraff 86 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(5) Mae Rhan 3 yn pennu'r gweithgareddau y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt.

## PART 2

Exempt activities – general provisions

### Exemption from need for marine licence

4.–(1) A marine licence is not needed for an activity carried on in Wales or the Welsh inshore region that is an exempt activity.

(2) An activity is an exempt activity to the extent that—

- (a) it is an activity to which this article applies (3); and
- (b) where the application of this article to an activity is subject to a condition specified in

(1) 1981 c.69. Section 37A was inserted, in relation to England and Wales, by section 77 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37), and amended by section 105(1) of, and paragraph 86 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16).

(2) OJ No L 312, 22.11.2008, p.3.

(3) Part 3 sets out the activities to which this article applies.



bennir yn Rhan 3, y bo'r amod hwnnw wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

(3) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (4) ac erthygl 5.

(4) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n gwneud gweithgaredd yn weithgaredd esempt i'r graddau y bo ymgymryd â'r gweithgaredd yn groes i gyfraith ryngwladol.

### **Gweithgareddau mewn perthynas â gwaredu neu adfer gwastraff**

5.–(1) Nid yw gweithgaredd gan sefydliad neu ymgymeriad sy'n ymwneud â gwaredu neu adfer gwastraff yn weithgaredd esempt, oni fodlonir yr amodau yn yr erthygl hon.

(2) Amod 1 yw fod y sefydliad neu ymgymeriad yn ymgymryd ag–

- (a) gwaredu ei wastraff amheryglus ei hunan yn y man cynhyrchu; neu
- (b) adfer gwastraff.

(3) Amod 2 yw fod y math a'r maint o wastraff sydd dan sylw, a'r dull o waredu neu adfer, yn gyson â'r angen i gyrraedd yr amcanion a grybwyllir yn Erthygl 13 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

(4) Amod 3 yw fod y sefydliad neu ymgymeriad wedi ei gofrestru gyda'r awdurdod trwyddedu.

(5) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu at ddibenion paragraff 4, gadw cofrestr sy'n cynnwys enw a chyfeiriad pob sefydliad neu ymgymeriad sy'n ymgymryd â gweithgaredd esempt sy'n cynnwys gwaredu neu adfer gwastraff o fewn ardal yr awdurdod trwyddedu.

(6) Ceir cadw'r gofrestr mewn unrhyw ffurf.

(7) Yn yr erthygl hon–

- (a) mae i "sefydliad" ac "ymgymeriad", yn eu trefn, yr ystyron a roddir i "establishment" ac "undertaking" yn erthyglau 23 a 24 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff;
- (b) mae i "gwastraff amheryglus" yr ystyr a roddir i "non-hazardous waste" yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff;
- (c) mae i "adfer" yr ystyr a roddir i "recovery" yn Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Part 3, that condition is satisfied in relation to that activity.

(3) But this is subject to paragraph (4) and article 5.

(4) Nothing in this Order makes an activity an exempt activity to the extent to which the carrying on of the activity is contrary to international law.

### **Activities relating to disposal or recovery of waste**

5.–(1) An activity carried on by an establishment or undertaking involving the disposal or recovery of waste is not an exempt activity unless the conditions in this article are satisfied.

(2) Condition 1 is that the establishment or undertaking is carrying out–

- (a) disposal of its own non-hazardous waste at the place of production; or
- (b) recovery of waste.

(3) Condition 2 is that the type and quantity of waste involved, and the method of disposal or recovery, are consistent with the need to attain the objectives mentioned in Article 13 of the Waste Framework Directive.

(4) Condition 3 is that the establishment or undertaking must be registered with the licensing authority.

(5) The licensing authority must, for the purposes of paragraph (4), maintain a register containing the name and address of any establishment or undertaking carrying on an exempt activity involving the disposal or recovery of waste in the licensing authority's area.

(6) The register may be kept in any form.

(7) In this article–

- (a) "establishment" and "undertaking" have the same meaning as in articles 23 and 24 of the Waste Framework Directive;
- (b) "non-hazardous waste" has the same meaning as in the Waste Framework Directive;
- (c) "recovery" has the meaning given by Article 3 of the Waste Framework Directive.



### RHAN 3

Gweithgareddau y mae erthygl 4 (esemptio rhag yr angen am drwydded forol) yn gymwys iddynt ac amodau

#### Dehongli'r Rhan hon

6.–(1) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at eitem â rhif yn gyfeiriad at yr eitem â'r rhif hwnnw yn adran 66(1) o'r Ddeddf.

(2) Yn Rhan hon–

- (a) mae cyfeiriad at "ddyddodiad" yn gyfeiriad at ddyddodiad sy'n dod o fewn eitem 1 (dyddodion o fewn ardal drwyddedu forol y DU etc), eitem 2 (dyddodion o longau etc Prydeinig mewn unrhyw fan ar y môr etc), eitem 3 (dyddodiad o gerbyd, llong etc a lwythwyd yn y Deyrnas Unedig ac eithrio'r Alban neu ardal drwyddedu forol y DU) neu, ac eithrio pan ddarperir fel arall, eitem 10 (dyddodi ffrwydron o fewn ardal drwyddedu forol y DU etc);
- (b) mae cyfeiriad at "weithgaredd treillio" yn gyfeiriad at weithgaredd sy'n dod o fewn eitem 9 (cynnal unrhyw ffurf o dreillio o fewn ardal drwyddedu forol y DU);
- (c) mae cyfeiriad at "weithgaredd symud" yn gyfeiriad at weithgaredd sy'n dod o fewn eitem 8 (defnyddio cerbyd, llong etc i symud sylwedd neu wrthrych oddi ar wely'r môr o fewn ardal drwyddedu forol y DU);
- (ch) mae cyfeiriad at "weithgaredd gweithiau" yn gyfeiriad at weithgaredd sy'n dod o fewn eitem 7 (adeiladu, newid neu wella gweithiau o fewn ardal drwyddedu forol y DU etc).

#### Gweithgareddau sy'n dod o fewn Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995

7. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd sy'n dod o fewn Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1) (atal llygru).

### PART 3

Activities to which article 4 (exemption from need for marine licence) applies, and conditions

#### Interpretation of this Part

6.–(1) In this Part, a reference to a numbered item is a reference to that numbered item in section 66(1) of the Act.

(2) In this Part–

- (a) a reference to a "deposit" is a reference to a deposit falling within item 1 (deposits within the UK marine licensing area etc), item 2 (deposits from British vessels etc anywhere in the sea etc), item 3 (deposit from vehicle, vessel etc loaded in the United Kingdom except Scotland or the UK marine licensing area) or, except as otherwise provided, item 10 (deposit of explosives within the UK marine licensing area etc);
- (b) a reference to a "dredging activity" is a reference to an activity falling within item 9 (to carry out any form of dredging within the UK marine licensing area etc);
- (c) a reference to a "removal activity" is a reference to an activity falling within item 8 (use of a vehicle, vessel etc to remove a substance or object from the sea bed within the UK marine licensing area);
- (d) a reference to a "works activity" is a reference to an activity falling within item 7 (construction, alteration or improvement of works within the UK marine licensing area etc).

#### Activities falling within Part 6 of the Merchant Shipping Act 1995

7. Article 4 applies to an activity falling within the subject matter of Part 6 of the Merchant Shipping Act 1995(1) (prevention of pollution).

(1) 1995 p.21. Gwnaed diwygiadau a diddymadau perthnasol i'r darpariaethau yn Rhan 6 gan Ddeddf Llongau Masnach (Llygredd) 2006 (p.8); Deddf Llongau Masnach a Diogelwch Arforol 1997 (p.28); Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p.24); Deddf Diogelwch Morol 2003 (p.16), ac O.S.2006/1244.

(1) 1995 c. 21. Relevant amendments and repeals to provisions in Part 6 were made by the Merchant Shipping (Pollution) Act 2006 (c. 8); the Merchant Shipping and Maritime Security Act 1997 (c. 28); the Pollution Prevention and Control Act 1999 (c. 24); the Marine Safety Act 2003 (c. 16), and S.I. 2006/1244.

## Cyfarwyddiadau diogelwch o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995

8. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir—

- (a) gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pŵer o dan Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(1) (cyfarwyddiadau diogelwch);
- (b) gan unrhyw berson at y diben o gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan yr Atodlen honno; neu
- (c) gan unrhyw berson at y diben o osgoi ymyrraeth â gweithredu a gyflawnwyd yn rhinwedd yr Atodlen honno.

## Gweithgareddau achub llongau

9. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir yn ystod gweithred achub llongau, at y diben o sicrhau diogelwch llong neu atal llygru.

## Ymladd tanau etc

10. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir at y diben o ymladd unrhyw dân neu atal ei ledaeniad.

## Ymchwilio i ddamweiniau awyr

11. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir at y diben o adfer unrhyw sylwedd neu wrthrych, yn rhan o ymchwiliad i unrhyw ddamwain sy'n ymwneud ag awyren.

## Gweithredoedd pysgota

12.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol os cyflawnir y gweithgaredd yng nghwrs gweithred pysgota—

- (a) dyddodi gêr pysgota ac eithrio dyddodiad a wneir at y diben o waredu;
- (b) gweithgaredd symud neu weithgaredd treillio a ymgymerir at y diben o—
  - (i) pysgota am bysgod neu gymryd pysgod, neu
  - (ii) symud gêr pysgota;
- (c) dyddodi, drwy'u dychwelyd i'r môr, unrhyw bysgod neu wrthrych arall.

(2) Mae erthygl 4 hefyd yn gymwys i ddyddodi drwy dychwelyd i'r môr unrhyw bysgod wrth brosesu pysgod ar y môr.

## Safety directions under the Merchant Shipping Act 1995

8. Article 4 applies to an activity carried on—

- (a) by or on behalf of the Secretary of State in exercise of a power under Schedule 3A to the Merchant Shipping Act 1995(1) (safety directions);
- (b) by any person for the purpose of complying with a direction under that Schedule; or
- (c) by any person for the purpose of avoiding interference with action taken by virtue of that Schedule.

## Salvage activities

9. Article 4 applies to an activity carried on, in the course of a salvage operation, for the purpose of ensuring the safety of a vessel or preventing pollution.

## Fire fighting etc

10. Article 4 applies to an activity carried on for the purpose of fighting, or preventing the spread of, any fire.

## Air accident investigation

11. Article 4 applies to a deposit or removal activity carried on for the purpose of recovering any substance or object as part of an investigation into any accident involving an aircraft.

## Fishing operations

12.—(1) Article 4 applies to any of the following activities if carried on in the course of a fishing operation—

- (a) the deposit of fishing gear, other than a deposit made for the purpose of disposal;
- (b) a removal activity or dredging activity carried on for the purpose of—
  - (i) fishing for or taking fish, or
  - (ii) removing fishing gear;
- (c) the deposit by way of return to the sea of any fish or other object.

(2) Article 4 also applies to the deposit by way of return to the sea of any fish during the course of fish processing at sea.

(1) Mewnsoodwyd adran 108A o Ddeddf Llongau Masnach 1995, sy'n rhoi effaith i Atodlen 3A, gan adran 1(1) o Ddeddf Diogelwch Morol 2003.

(1) Section 108A of the Merchant Shipping Act 1995, which gives effect to Schedule 3A, was inserted by section 1(1) of the Marine Safety Act 2003.

(3) Yn yr erthygl hon—

- (a) mae "pysgod" yn cynnwys pysgod cregyn ac unrhyw ran o bysgodyn;
- (b) mae "gêr pysgota" yn cynnwys gêr a ddefnyddir i bysgota am bysgod cregyn neu gymryd pysgod cregyn, ond ac eithrio hynny, nid yw'n cynnwys dim a ddefnyddir mewn cysylltiad â lledaenu neu fagu pysgod cregyn.

### **Lledaenu a magu pysgod cregyn**

13.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) ddyddodi unrhyw bysgod cregyn, trestl, rafft, cawell, polyn, rhaff neu lein wrth lledaenu neu fagu pysgod cregyn;
- (b) gweithgaredd symud neu weithgaredd treillio a ymgymerir at y diben o symud pysgod cregyn o fewn y môr yn ystod eu lledaenu neu'u magu.

(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodiad o'r fath—

- (a) a wneir at y diben o waredu;
- (b) a wneir at y diben o greu, newid neu gynnal creigres artiffisial; neu
- (c) sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.

### **Dyddodi sylweddau trin cemegion morol, sylweddau trin olew morol etc**

14.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodi unrhyw—

- (a) sylwedd trin cemegion morol;
- (b) sylwedd trin olew morol;
- (c) sylwedd a ddefnyddir, neu a fwriedir i'w ddefnyddio, i symud deunydd tyfiant arwynebol, oddi ar wyneb y môr neu wyneb gwely'r môr.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 i 4.

(3) Amod 1 yw fod rhaid i'r sylwedd fod yn un y mae'i ddefnyddio wedi ei gymeradwyo ar y pryd gan yr awdurdod trwyddedu at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(4) Amod 2 yw fod rhaid i'r sylwedd gael ei ddefnyddio yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.

(5) Amod 3 yw na cheir dyddodi mewn ardal o'r môr lle mae'r dyfnder yn llai nag 20 metr neu sydd o fewn un fôr-filltir i ardal o'r fath, ac eithrio gyda chymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu.

(6) Amod 4 yw na cheir dyddodi unrhyw sylwedd trin cemegion morol neu sylwedd trin olew morol islaw arwyneb y môr ac eithrio gyda chymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu.

(3) In this article—

- (a) "fish" includes shellfish and any part of a fish;
- (b) "fishing gear" includes gear used to fish for or take shellfish, but does not otherwise include anything used in connection with the propagation or cultivation of shellfish.

### **Shellfish propagation and cultivation**

13.—(1) Article 4 applies to—

- (a) the deposit of any shellfish, trestle, raft, cage, pole, rope or line in the course of the propagation or cultivation of shellfish;
- (b) a removal activity or dredging activity carried on for the purpose of moving shellfish within the sea in the course of its propagation or cultivation.

(2) But article 4 does not apply to any such deposit—

- (a) made for the purpose of disposal;
- (b) made for the purpose of creating, altering or maintaining an artificial reef; or
- (c) that causes or is likely to cause obstruction or danger to navigation.

### **Deposit of marine chemical and marine oil treatment substances etc**

14.—(1) Article 4 applies to the deposit of any—

- (a) marine chemical treatment substance;
- (b) marine oil treatment substance;
- (c) substance used or intended to be used for removing surface fouling matter from the surface of the sea or of the sea bed.

(2) Paragraph (1) is subject to conditions 1 to 4.

(3) Condition 1 is that the substance must be one the use of which is for the time being approved for the purposes of this Order by the licensing authority.

(4) Condition 2 is that the substance must be used in accordance with any conditions to which the approval is subject.

(5) Condition 3 is that no deposit may be made in an area of the sea of a depth of less than 20 metres or within one nautical mile of any such area except with the approval of the licensing authority.

(6) Condition 4 is that no deposit of any marine chemical treatment substance or marine oil treatment substance may be made below the surface of the sea except with the approval of the licensing authority.

(7) Yn yr erthygl hon, mae i "sylwedd trin cemegion morol" a "sylwedd trin olew morol", yn eu trefn, yr ystyron sydd i "marine chemical treatment substance" a "marine oil treatment substance" yn adran 107(2) o'r Ddeddf.

#### **Dyddodi cyfarpar i reoli, cyfyngu neu adfer olew etc**

15.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad o unrhyw gyfarpar at y diben o reoli, cyfyngu neu adfer unrhyw—

- (a) olew,
- (b) cymysgedd sy'n cynnwys olew,
- (c) cemegyn,
- (ch) broc môr, neu
- (d) gordyfiant algaidd.

(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodiad o'r fath i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10.

#### **Offer gwyddonol etc**

16.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) dyddodi unrhyw offer gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig mewn perthynas ag unrhyw arbrawf neu arolwg gwyddonol;
- (b) dyddodi unrhyw ymweithredydd;
- (c) dyddodi unrhyw olrheinydd;
- (ch) gweithgaredd symud a gynhelir at y diben o symud unrhyw offeryn gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(2) Mae is-baragraffau (b) ac (c) o baragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 a 2.

(3) Amod 1 yw fod rhaid i'r ymweithredydd neu'r olrheinydd fod, ar y pryd, yn un a gymeradwyir gan yr awdurdod trwyddedu at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(4) Amod 2 yw fod rhaid defnyddio'r ymweithredydd neu'r olrheinydd yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.

(5) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) unrhyw ddyddodiad o'r fath a wneir at y diben o waredu;
- (b) unrhyw ddyddodiad o'r fath sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo;
- (c) unrhyw ddyddodiad neu weithgaredd symud o'r fath—
  - (i) sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (6); a
  - (ii) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â,

(7) In this article, "marine chemical treatment substance" and "marine oil treatment substance" have the same meaning as in section 107(2) of the Act.

#### **Deposit of equipment to control, contain or recover oil etc**

15.–(1) Article 4 applies to the deposit of any equipment for the purpose of controlling, containing or recovering any—

- (a) oil,
- (b) mixture containing oil,
- (c) chemical,
- (d) flotsam, or
- (e) algal bloom.

(2) But article 4 does not apply to any such deposit to the extent that it falls within item 10.

#### **Scientific instruments etc**

16.–(1) Article 4 applies—

- (a) to the deposit of any scientific instrument or associated equipment in connection with any scientific experiment or survey;
- (b) to the deposit of any reagent;
- (c) to the deposit of any tracer;
- (d) to a removal activity carried on for the purpose of removing any scientific instrument or associated equipment referred to in sub-paragraph (a).

(2) Sub-paragraphs (b) and (c) of paragraph (1) are subject to conditions 1 and 2.

(3) Condition 1 is that the reagent or tracer must be one the use of which is for the time being approved for the purposes of this Order by the licensing authority.

(4) Condition 2 is that the reagent or tracer must be used in accordance with any conditions to which the approval is subject.

(5) But article 4 does not apply to—

- (a) any such deposit made for the purpose of disposal;
- (b) any such deposit that causes or is likely to cause obstruction or danger to navigation;
- (c) any such deposit or removal activity—
  - (i) that falls within sub-paragraph (a) or (b) of paragraph 6; and
  - (ii) that is not directly connected with or

nac yn angenrheidiol ar gyfer, rheolaeth y safle neu'r parth (yn ôl fel y digwydd) y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw.

(6) Mae dyddodiad yn dod o fewn y paragraff hwnnw—

- (a) os yw'n gynllun neu brosiect sy'n debygol (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd; neu
- (b) os yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ramsar.

(7) Yn is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (6), mae i "tebygol" yr ystyr sydd i "likely" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(1).

### **Dyddodion yn ystod treillio am agregau neu fwynau**

17.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) dyddodi, ar safle treillio am agregau neu fwynau eraill, unrhyw sylwedd neu wrthrych a gymerir o'r môr wrth dreillio felly (ac eithrio unrhyw rai o'r agregau neu'r mwynau y treillir amdanynt);
- (b) dyddodi dyfroedd (pa un ai drwy orlifo neu arllwys â phwmp) allan o grombil llong—
  - (i) yn ystod treillio arferol am agregau neu fwynau eraill, neu
  - (ii) ar safle treillio o'r fath ar ôl ei gwblhau neu yn ystod taith y llong yn ôl.

### **Cynnal a chadw gweithiau ar gyfer diogelu'r arfordir, draenio ac amddiffyn rhag llifogydd**

18.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) gweithgaredd a ymgymerir gan neu ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd at y diben o gynnal a chadw—
  - (i) gweithiau ar gyfer diogelu'r arfordir;
  - (ii) gweithiau draenio;
  - (iii) gweithiau i amddiffyn rhag llifogydd;
- (b) gweithgaredd a ymgymerir gan neu ar ran awdurdod diogelu'r arfordir o fewn yr ystyr a roddir i "coast protection authority" yn Neddf Diogelu'r Arfordir 1949(2) at y diben o gynnal a chadw unrhyw weithiau diogelu'r arfordir.

necessary to the management of the site referred to in that sub-paragraph.

(6) A deposit or removal activity falls within this paragraph if—

- (a) it is a plan or project likely (either alone or in combination with other plans or projects) to have a significant effect on a European site; or
- (b) it is likely to have an effect on a Ramsar site.

(7) In sub-paragraphs (a) and (b) of paragraph (6), "likely" has the same meaning as in Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora(1).

### **Deposits in the course of aggregates or mineral dredging**

17.—(1) Article 4 applies—

- (a) to the deposit on the site of dredging for aggregates or other minerals of any substance or object taken from the sea in the course of such dredging (other than any of the aggregates or minerals being dredged);
- (b) to the deposit of waters (whether by overflow or pumped discharge) from the hold of a vessel—
  - (i) in the normal course of dredging for aggregates or other minerals, or
  - (ii) at the site of such dredging following its completion or during the return journey of the vessel.

### **Maintenance of coast protection, drainage and flood defence works**

18.—(1) Article 4 applies—

- (a) to an activity carried on by or on behalf of the Environment Agency for the purpose of maintaining any—
  - (i) coast protection works;
  - (ii) drainage works;
  - (iii) flood defence works;
- (b) to an activity carried on by or on behalf of a coast protection authority (within the meaning of the Coast Protection Act 1949(2)) for the purpose of maintaining any coast protection works.

(1) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t.7, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.368).

(2) 1949 p.74. Diwygiwyd Rhan 1 gan Atodlen 2 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29), o ddyddiad sydd i'w bennu.

(1) OJ Number L 206, 22.7.1992, p.7, last amended by Council Directive 2006/105/EC (OJ number L 363, 20.12.2006, p.368).

(2) 1949 c.74. Part 1 has been amended by Schedule 2 to the Flood and Water Management Act 2010 (c.29), from a date to be appointed.



(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod y cyflawnir y gweithgaredd o fewn ffiniau presennol y gweithiau a gynhelir.

(3) Nid yw erthygl 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys ailgyflenwi traeth.

### **Gwaith argyfwng wrth ymateb i lifogydd neu risg o lifogydd**

**19.**–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir gan neu ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd, at y diben o gyflawni gwaith argyfwng wrth ymateb i lifogydd neu'r risg bod gorlifiad ar fin digwydd.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod na cheir ymgymryd â'r gweithgaredd ac eithrio'n unol â chymeradwyaeth a roddir gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw.

### **Defnyddio cerbydau I gasglu sbwriel neu wymon oddi ar draethau**

**20.**–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd symud gan ddefnyddio cerbyd, a ymgymerir gan neu ar ran awdurdod lleol at y diben o symud sbwriel neu wymon oddi ar draeth.

(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw weithgaredd symud o'r fath—

- (a) sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (3); a
- (b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â, neu'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw.

(3) Mae gweithgaredd yn dod o fewn y paragraff hwn—

- (a) os yw'n gynllun neu brosiect sy'n debygol (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd; neu
- (b) os yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ramsar.

(4) Ym mharagraff (1), mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "local authority" yn adran 68(9) o'r Ddeddf.

(5) Ym mharagraff (3)(a) a (b), mae i "tebygol" yr ystyr a roddir i "likely" yng Nghyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt.

### **Dyddodion yn ystod mordwyo neu waith cynnal arferol**

**21.**–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodi o gerbyd, llong, awyren neu strwythur morol wrth fordwyo neu wneud gwaith cynnal arferol.

(2) Paragraph (1) is subject to the condition that the activity is carried on within the existing boundaries of the works being maintained.

(3) Article 4 does not apply in relation to any such activity that consists of beach replenishment.

### **Emergency works in response to flood or flood risk**

**19.**–(1) Article 4 applies to an activity carried on by or on behalf of the Environment Agency for the purpose of executing emergency works in response to any flood or the imminent risk of any flood.

(2) Paragraph (1) is subject to the condition that the activity may only be carried on in accordance with an approval granted by the licensing authority for that purpose.

### **Use of vehicles to remove litter or seaweed from beaches**

**20.**–(1) Article 4 applies to a removal activity using a vehicle, carried on by or on behalf of a local authority, for the purpose of removing any litter or seaweed from a beach.

(2) But article 4 does not apply to any such removal activity—

- (a) that falls within sub-paragraph (a) or (b) of paragraph (3); and
- (b) that is not directly connected with or necessary to the management of the site referred to in that sub-paragraph.

(3) An activity falls within this paragraph if—

- (a) it is a plan or project likely (either alone or in combination with other plans or projects) to have a significant effect on a European site; or
- (b) it is likely to have a significant effect on a Ramsar site.

(4) In paragraph (1), "local authority" has the meaning given by section 68(9) of the Act.

(5) In paragraph (3)(a) and (b), "likely" has the same meaning as in Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora.

### **Deposits in the course of normal navigation or maintenance**

**21.**–(1) Article 4 applies to the deposit from a vehicle, vessel, aircraft or marine structure in the course of its normal navigation or maintenance.



(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodiad o'r fath—

- (a) a wneir at y diben o waredu;
- (b) i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10.

### **Cynnal a chadw gweithiau harbwr**

**22.**—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad, gweithgaredd symud neu weithgaredd gweithiau a ymgymerir gan neu ar ran awdurdod harbwr at y diben o gynnal unrhyw weithiau harbwr.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod y cyflawnir y gweithgaredd o fewn ffiniau presennol y gweithiau a gynhelir.

### **Symud rhwystr neu berygl i fordwyaeth**

**23.**—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd symud a ymgymerir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o symud unrhyw beth sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, rhwystr neu berygl i fordwyaeth.

(2) Y personau yw—

- (a) awdurdod cadwraeth (yn yr ystyr a roddir i "conservancy authority" gan adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1);
- (b) awdurdod harbwr;
- (c) awdurdod goleudy;
- (ch) person sydd â phwerau o dan unrhyw ddeddfiad neu orchymyn statudol i weithio neu gynnal camlas neu fath arall o fordwyaeth fewndirol, gan gynnwys mordwyaeth mewn dyfroedd llanwol.

### **Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

**24.**—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

- (a) dyddodiad neu weithgaredd gweithiau a ymgymerir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o ddarparu angorfa byst, angorfa sigl, angorfa drot neu gymorth mordwyo;
- (b) gweithgaredd symud a ymgymerir gan unrhyw berson o'r fath at y diben o symud unrhyw angorfa neu gymorth mordwyo o'r fath.

(2) Y personau yw—

- (a) awdurdod harbwr;
- (b) awdurdod goleudy;
- (c) unrhyw berson arall, sy'n ymgymryd â'r gweithgaredd yn unol â chaniatâd a geisiodd ac a gafodd gan unrhyw awdurdod o'r fath.

(3) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys dyddodi neu adeiladu pontŵn.

(2) But article 4 does not apply to any such deposit—

- (a) made for the purpose of disposal;
- (b) to the extent that it falls within item 10.

### **Maintenance of harbour works**

**22.**—(1) Article 4 applies to a deposit, removal activity or works activity carried on by or on behalf of a harbour authority for the purpose of maintaining any harbour works.

(2) Paragraph (1) is subject to the condition that the activity is carried on within the existing boundaries of the works being maintained.

### **Removal of obstruction or danger to navigation**

**23.**—(1) Article 4 applies to a removal activity carried on by a person referred to in paragraph (2) for the purpose of removing anything causing or likely to cause obstruction or danger to navigation.

(2) The persons are—

- (a) a conservancy authority (within the meaning given by section 313(1) of the Merchant Shipping Act 1995(1);
- (b) a harbour authority;
- (c) a lighthouse authority;
- (d) a person having powers under any enactment or statutory order to work or maintain a canal or other inland navigation, including a navigation in tidal water.

### **Moorings and aids to navigation**

**24.**—(1) Article 4 applies—

- (a) to a deposit or works activity carried on by a person referred to in paragraph (2) for the purpose of providing a pile mooring, swinging mooring, trot mooring or aid to navigation;
- (b) to a removal activity carried on by any such person for the purpose of removing any such mooring or aid to navigation.

(2) The persons are—

- (a) a harbour authority;
- (b) a lighthouse authority;
- (c) any other person, where the activity is carried on in accordance with a consent required from, and granted by, any such authority.

(3) But article 4 does not apply to any such activity which consists of the deposit or the construction of a pontoon.

## Arwyddion ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd a pharthau cadwraeth morol

25.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i–

- (a) dyddodiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru at y diben o osod arwydd at ddibenion rheoliad 35(1) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(1) (gosod arwyddion i ddynodi bodolaeth a ffiniau safle morol Ewropeaidd o fewn ystyr "European marine site" yn y Rheoliadau hynny (2));
- (b) gweithgaredd symud a ymgymerir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru at y diben o symud arwydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod na cheir ymgymryd â'r gweithgaredd ac eithrio'n unol â chymeradwyaeth a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw.

## Lansio llongau a chychod etc

26. Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad mewn cysylltiad â lansio unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol.

## Datgymalu llongau

27.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad neu weithgaredd symud a ymgymerir yn rhan o ddatgymalu llong sy'n wastraff.

(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodiad o'r fath i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10.

## Llwybrau deifwyr mewn ardaloedd dan gyfyngiadau

28. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd symud a ymgymerir at y diben o osod, cysylltu neu symud arwyddion neu ddynodyddion eraill mewn perthynas â llongddrylliad, mewn ardal a ddynodwyd yn ardal dan gyfyngiadau, yn yr ystyr a roddir i "restricted area" yn adran 1 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973(3).

## Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant

29. Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

## Markers for European marine sites

25.–(1) Article 4 applies to–

- (a) a deposit by the Countryside Council for Wales for the purpose of installing a marker for the purpose of installing a marker for the purposes of regulation 35(1) of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 (1) (installation of markers indicating the existence and extent of a European marine site within the meaning of those Regulations(2));
- (b) a removal activity carried on by the Countryside Council for Wales for the purpose of removing a marker referred to in subparagraph (a).

(2) Paragraph (1) is subject to the condition that the activity may only be carried on in accordance with an approval granted by the licensing authority for that purpose.

## Launching of vessels etc

26. Article 4 applies to a deposit in connection with the launching of any vehicle, vessel, aircraft, marine structure or floating container.

## Dismantling of ships

27.–(1) Article 4 applies to a deposit or removal activity carried on as part of dismantling a ship that is waste.

(2) But article 4 does not apply to any such deposit to the extent that it falls within item 10.

## Diver trails within restricted areas

28. Article 4 applies to a deposit or removal activity carried on for the purpose of placing, securing or removing signage or other identifying markers relating to a wreck within an area designated as a restricted area within the meaning of section 1 of the Protection of Wrecks Act 1973(3).

## Coastguard activities – safety purposes and training

29. Article 4 applies to an activity carried on by or on behalf of the Secretary of State for Transport, acting

---

(1) O.S. 2010/490.

(2) *Gweler* rheoliad 8(4) am ddiffiniad o "European marine site".

(3) 1973 p.33. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, ac eithrio adran 2, i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 [O.S.1999/672] ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw a chan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

---

(1) S.I. 2010/490.

(2) *See* regulation 8(4) for a definition of "European marine site".

(3) 1973 c.33. Functions under the Protection of Wrecks Act 1973, with the exception of section 2, were transferred to the Welsh Ministers by article 2 and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 [S.I.1999/672] and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

dros Drafnidiaeth, yn gweithredu drwy Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, at y diben o—

- (a) sicrhau diogelwch llong, awyren neu adeiledd morol;
- (b) achub bywyd; neu
- (c) hyfforddi at unrhyw ddiben y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b).

#### **Dyddodi a defnyddio fflaglau etc – dibenion diogelwch a hyfforddiant**

30. Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodi neu ddefnyddio unrhyw fflag cyfyngder, arnofyn mwg neu sylwedd neu wrthrych pyrotechnegol cyffelyb at y diben o—

- (a) sicrhau diogelwch llong, awyren neu adeiledd morol;
- (b) achub bywyd; neu
- (c) hyfforddi at unrhyw ddiben y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b).

#### **Ceblau a phiblinellau – archwilio ac atgyweirio awdurdodedig mewn argyfwng**

31.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad neu weithgaredd symud neu weithgaredd treillio a ymgymerir at y diben o gyflawni archwiliad o unrhyw gebl neu biblinell, neu waith atgyweirio arno neu arni.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod na cheir ymgymryd â'r gweithgaredd ac eithrio'n unol â chymeradwyaeth a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw.

(3) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodiad o'r fath sy'n dod o fewn eitem 10.

#### **Twnelau turiedig**

32.—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i dyddodiad neu weithgaredd gweithiau a ymgymerir yn gyfan gwbl o dan wely'r môr mewn cysylltiad ag adeiladu neu weithredu twnnel turiedig.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 a 2.

(3) Amod 1 yw fod rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu, mewn ysgrifen, o'r bwriad i ymgymryd â'r gweithgaredd, cyn ymgymryd â'r gweithgaredd.

(4) Amod 2 yw fod rhaid i'r gweithgaredd beidio â chael effaith anffafriol ar amgylchedd Cymru a rhanbarth glannau Cymru, nac ar yr adnoddau byw y mae'r amgylchedd hwnnw'n eu cynnal.

(5) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i ddyddodiad a wneir at y diben o waredu.

through the Maritime and Coastguard Agency, for the purpose of—

- (a) securing the safety of a vessel, aircraft or marine structure;
- (b) saving life; or
- (c) training for any purpose referred to in paragraph (a) or (b).

#### **Deposit and use of flares etc – safety purposes and training**

30. Article 4 applies to the deposit or use of any distress flare, smoke float or similar pyrotechnic substance or object for the purpose of—

- (a) securing the safety of a vessel, aircraft or marine structure;
- (b) saving life; or
- (c) training for any purpose referred to in sub-paragraph (a) or (b).

#### **Cables and pipelines – authorised emergency inspection and repair**

31.—(1) Article 4 applies to a deposit, removal activity or dredging activity carried on for the purpose of executing emergency inspection or repair works to any cable or pipeline.

(2) Paragraph (1) is subject to the condition that the activity may only be carried on in accordance with an approval granted by the licensing authority for that purpose.

(3) But article 4 does not apply to any such deposit falling within item 10.

#### **Bored tunnels**

32.—(1) Article 4 applies to a deposit or works activity carried on wholly under the sea bed in connection with the construction or operation of a bored tunnel.

(2) Paragraph (1) is subject to conditions 1 and 2.

(3) Condition 1 is that notice in writing of the intention to carry on the activity must be given to the licensing authority before the activity is carried on.

(4) Condition 2 is that the activity must not adversely affect the environment of Wales and the Welsh inshore region or the living resources that it supports.

(5) But article 4 does not apply to any such deposit carried on for the purpose of disposal.

### **Hawliau llongau tramor etc o dan gyfraith ryngwladol**

33.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd i'r graddau yr ymgwymerir ag ef wrth arfer hawl o dan reolau cyfraith ryngwladol gan, neu mewn perthynas ag–

- (a) llong trydedd gwlad;
- (b) llong ryfel, llong llynges atodol, llong arall neu awyren sy'n eiddo i Wladwriaeth ac a weithredir ganddi, ac a ddefnyddir ar y pryd ar gyfer gwasanaeth anfasnachol y llywodraeth yn unig (pa un ai yw'r llong ryfel, llong llynges atodol neu long arall yn llong trydedd gwlad ai peidio).

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "llong trydedd gwlad" yw llong–

- (a) sy'n arddangos baner, neu wedi ei chofrestru mewn, unrhyw Wladwriaeth neu diriogaeth (ac eithrio Gibraltar) nad yw'n Aelod-wladwriaeth; a
- (b) nad yw wedi ei chofrestru mewn Aelod-wladwriaeth.

### **Llwytho cerbyd neu long etc â deunydd i'w losgi y tu allan i Gymru a rhanbarth glannau Cymru**

34.–(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i llwytho cerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol gydag unrhyw sylwedd neu wrthrych ar gyfer ei losgi–

- (a) yn rhanbarth glannau'r Alban;
- (b) yn ardal drwyddedu forol y DU ac eithrio yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru;
- (c) y tu allan i ardal drwyddedu forol y DU a rhanbarth glannau'r Alban, pan fo'r llosgi i ddigwydd ar–
  - (i) llong neu adeiledd morol Prydeinig; neu
  - (ii) cynhwysydd arnofiol yn y môr, os rheolir y llosgi o long Brydeinig, awyred Brydeinig neu adeiledd morol Prydeinig.

(2) Ond mae paragraff (1) yn gymwys, yn unig, i'r graddau y mae gweithgaredd o'r fath yn dod o fewn eitem 13.

### **Rights of foreign vessels etc under international law**

33.–(1) Article 4 applies to an activity to the extent that it is carried on in exercise of a right under rules of international law, by or in relation to–

- (a) a third country vessel;
- (b) a warship, naval auxiliary, other vessel or aircraft owned or operated by a State and used, for the time being, only on government non-commercial service (whether or not the warship, naval auxiliary or other vessel is a third country vessel).

(2) In paragraph (1), "third country vessel" means a vessel which–

- (a) is flying the flag of, or is registered in, any State or territory (other than Gibraltar) which is not a member State; and
- (b) is not registered in a member State.

### **Loading of a vehicle or vessel etc for incineration outside Wales and the Welsh inshore region**

34.–(1) Article 4 applies to the loading of a vehicle, vessel, aircraft, marine structure or floating container with any substance or object for incineration–

- (a) in the Scottish inshore region;
- (b) in the UK marine licensing area other than in Wales and the Welsh inshore region;
- (c) outside the UK marine licensing area and the Scottish inshore region, where the incineration is to take place on–
  - (i) a British vessel or marine structure; or
  - (ii) a container floating in the sea, if the incineration is controlled from a British vessel, British aircraft or British marine structure.

(2) But paragraph (1) applies only to the extent that such an activity falls within item 13.

*Jane Davidson*

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a  
Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing,  
one of the Welsh Ministers

25 Chwefror 2011

25 February 2011

---

©© Hawlfraint y Goron 2011

---

© Crown copyright 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office  
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei  
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the  
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's  
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2011 Rhif 559 (Cy.81)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**TRWYDDEDU (MOROL),  
CYMRU**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

Gorchymyn Trwyddedu Morol  
(Gweithgareddau Esempt) (Cymru)  
2011

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2011 No. 559 (W.81)**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

**LICENSING (MARINE),  
WALES**

**MARINE POLLUTION,  
WALES**

The Marine Licensing (Exempted  
Activities) (Wales) Order 2011